**Enw'r Ysgol: Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4AF**

## Addysg Grefyddol

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae safonau Addysg Grefyddol y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol. Dengys adroddiad craffu ar lyfrau'r disgyblion fod cynnydd da yng ngwaith y disgyblion yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Mae safonau medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn y llyfrau gwaith yn arddangos cynnydd, dealltwriaeth priodol i oed a gallu y rhanfwyaf o'r disgyblion mewn Addysg Grefyddol yn y ddau gyfnod allweddol.
- Mae bron bob un o'r disgyblion yn yr ysgol yn deall ac yn gallu egluro yn glir beth yw tegwch, cyfeillgarwch, caredigrwydd, gofal a chariad tuag at eraill.
- Gall rhan fwyaf o'r dysgwyr alw i gof ac ymateb i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf yn gallu siarad am eu gwaith ac awgrymu mewn termau syml pam bod rhai agweddau ar grefydd yn bwysig i rai pobl – e.e. wrth ymdrin â'r thema 'Dathliadau.'
- Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu trafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd, gan gynnig eu barnau eu hunain - e.e. wrth ymdrin â ''Beth yw heddwch?''
- Mae llawer o'r dysgwyr CS yn gallu trafod eu hymatebion ac ychydig ohonynt yn llwyddo i gyfiawnhau syniadau yn hyderus. Erbyn brig CA2 mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn gallu cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
- Mae'r mwyafrif o'r dysgwyr yn llwyddo i esbonio sut mae eu barnau a'u teimladau yn wahanol i rai pobl eraill.
- Mae rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gallu defnyddio ystod o eirfa crefyddol addas erbyn bl 5 a 6 ac yn gallu adnabod symbolau crefyddol mwyaf adnabyddus.
- Dengys adroddiad Llywodraethwraig/Rhiant fod y disgyblion yn ymateb yn ddeallus a gonest iawn mewn gwasanaethau ac yn cymryd rhan gyhoeddus mewn modd blaenllaw iawn.
- Trwy ymholiad mae aelodau'r Cyngor yn penderfynu pa elusen fydd yn derbyn arian casgliad Diolchgarwch yr ysgol. Mae pob un disgybl o'r ysgol yn ymweld a chapeli lleol i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn flynyddol ac yn ymweld a Chartref yr Henod i gynnal gwasanaethau Diolch a Nadolig – mae hyn yn arfer rhagorol fel ymateb i farn y dysgwyr.

**Materion i gael sylw**

Mwy o waith ysgrifennu estynedig ym mlwyddyn 2.

| **Rhagorol** | | **Da** | v | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth byncïol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r dysgwyr i gyd yn derbyn gwers Addysg Grefyddol yn wythnosol, yn unol â'r gofynion statudol.
- Rhoddir amser penodol bob wythnos i Addysg Grefyddol – Cyfnod Sylfaen: Rhoddir unai gwers Addysg Grefyddol neu cyfle i ddisgyblion drafod materion megis - pwysigrwydd cyfeillgarwch, tegwch, caredigrwydd yn draws gwriciwlaidd.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2 rhoddir un wers Addysg Grefyddol yn wythnosol.
- Mae'r athrawon â gwybodaeth pynciol eang a chymwys iawnMae'r cynlluniau gwaith wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â Phobl, Credoau a Chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y CS. Caiff y dysgwyr eu hunain gyfleoedd i 'gynllunio'

gweithgareddau i gyfoethogi'r ardaloedd dysgu sy'n cyd-blethu ac yn atyfnerthu'r tasgau ffocws

- Mae cynlluniau gwaith CA2 yn gyfarwydd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr. Mae'r cynlluniau gwaith yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gristnogaeth a'r prif grefyddau trwy ryngberthynas sgiliau craidd y pwnc sef 'Ymdrin â'r Cwestiynau Sylfaenol,' 'Archwilio Credoau, Dysgeidiaethau ac Arferion Crefyddol' a 'Mynegi Ymatebion Personol.' Mae cynlluniau CA2 yn fanwl ac yn fwriadus ac yn sicrhau trefn a dilyniant. Mae rhoi sylw i Gwestiynau Mawr wedi bod yn gyfrwng i sicrhau datblygiad pendant iawn yn sgiliau ymholi y dysgwyr.
- Mae cyfleodd i ganolbwyntio ar yr ystod canlynol yn y cynlluniau gwaith: 'Y byd,' 'Profiad dynol,' a 'Chwilio am ystyr.'
- Cynllunir ymweliadau ag addoldai lleol ac anarferol, defnyddir arteffactau crefyddol yn bwrpasol e.e. mat gweddio Islam i hyrwyddo dealltwriaeth o grefydd arall.
- Defnyddir fidio a gwefannau i gyflwyno unedau o waith arbennig yn ddeallus a gyfer annog pob un dysgwr.
- Defnyddir Amser Cylch yn rymus i hyrwyddo medrau personol a chymdeithasol y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a CA2.
- Cynhelir sesiynau Amser Cylch yn rheolaidd ym mhob dosbarth fel rhan o'r ABaCh pan sicrheir cyfleoedd da i fyfyrio, holi a rhyfeddu.
- Bydd y Cyngor Ysgol yn penderfynu ar elusen yn dymhorol ac fe gyfrannwn yn hael iawn.
- Dengys adroddiad craffu ar lyfrau fod yr athrawon yn gosod nod a mpll ar gyfer y pob gwers.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau: llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl yn dda trwy gyfres o wersi ysgogol.
- Mae arsylwadau gwersi yn nodi bod tystiolaeth grymus yn seiliedig ar arweinwyr crefyddol megis Gandhi, Rosa Parks, Martin Luther ac mae gan y rhanfwyaf o'r dysgwyr wybodaeth a dealltwriaeth eang o'r arferion credoau amrywiol.
- Darperir cyfleoedd cyfoethog i annog y disgyblion i feddwl yn agored ac i hyrwyddo barn ymestynnol yn enwedig mewn gwaith llafar.

**Materion i gael sylw**

Rhifedd trwy Addsyg Grefyddol

| **Rhagorol** | | **Da** | v | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** v | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

**Cyffredinol:** Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles a datblygiad ysbrydol, moesol, a diwylliannol yn dda. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd safonau da yn eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol gan gymryd i ystyriaeth canran yr amddifadedd. Mae polisiau priodol yn yr ysgol i hyrwyddo'r holl agweddau.

- Mae bron pob un gweithred o addoli ar y cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol.
- Mae trefniadau addoli'r ysgol yn cyfarfod â gofynion statudol. Mae naws ysbrydol arbennig i wasanaethau'r ysgol ac mae'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol trwy gyflwyno gwasanaethau dosbarth a thrwy rannu teimladau ar y pryd.
- Mae'r cwricwlwm ddarpariaeth Addysg Grefyddol a gynigir yn addysgu'r disgyblion yn effeithiol i barchu a dangos empathi tuag at arferion crefyddau eraill.
- Rhoir cyfle clodwiw iddynt fyfyrio ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain yng ngoleuni'r hyn y maent yn ei myfyrio yn y gwasanaethau.
- Dengys adroddiad monitro Addoli ar y Cyd gan y Llywodraethwyr/Rhieni fod ansawdd yr addoli yn dda iawn. Cynhelir Addoli ar y Cyd yn ddyddiol yn yr ysgol – dwy waith ysgol gyfan, unwaith waith yn addoli fel cyfnodau allweddol a dwy waith yn y dosbarthiadau ac maent wedi eu strwythuro yn briodol i oedran y dosbarthiadau.
- Mae'r disgyblion yn cymryd rhan flaenllaw ac yn hyderus yn eu canu, ymateb, darllen, a thrwy gynnal gwasanaethau.
- Mae athrawon yr ysgol yn cymryd eu tro i gynnal gwasanaethau ysgol gyfan yn wythnosol ac mae eu gwybodaethau yn berthnasol ac yn briodol iawn i'r gofynion.
- Mae'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan yng Ngwasanaethau Cyhoeddus gan yr ysgol – e.e. Gwasanaeth Diolchgarwch, Nadolig. Dengys holiaduron bod y gwasanaethau hyn igyd o safon uchel iawn.
- Mae ei sgiliau llefaru a gwrando ar eraill yn dda iawn - maent yn dangos parch tuag at eraill wrth wrando ac ymateb iddynt yn ddeallus a bonheddig.

- Caiff y disgyblion gyfleoedd pob tymor i wrando a chymryd rhan mewn gwasanaeth gyda Weinidog yr Ardal .
- Yn ystod y cyfnodau hyn dangosai'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o storiau o'r Beibl yn ogystal am gariad Duw a Christ.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Buddsoddi mewn Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol yn y Neuadd i arddangos clipiau i hyrwyddo safonau gwasanaethau ymhellach.

| **Rhagorol** | v | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Falmai Wyn Ellis* (Pennaeth)

Dyddiad: 4.5.16